

ARWEINWYR YR EGLWYSI



Dydd Llun
- 4 Mawrth -

*Cadwch mewn cof
eich arweinwyr, y rhai
a lefarodd air Duw
wrthyich; myfyriwch ar
ganlyniad eu buchedd,
ac efelychwch eu ffydd.*

Hebreaid 13:7

*"Un o'r camgymeriadau mwyaf a
wnawn yw meddwl fod arweinwyr ein
heglwysi yn 'Gristnogion arbennig'.
Y gwir yw bod ein harweinwyr yn
'Gristnogion arferol' ond sydd a
'gweinidogaeth arbennig', ac fel pob
Cristion arall mae angen gweddio
y byddant yn derbyn gras Duw
yn ddyddiol. Gweddiwch am eich
arweinwyr."*

Phil Swann
Llanelli Free Evangelical Church



Un o anghenion mwyaf yr Eglwys yw arweiniad cryf, ysbrydol llawn cariad; mae'n egwyddor Feiblaidd ac yn rhywbeth y gwnaeth Iesu ei ddatblygu yn ei ddisgyblion. Mae bod yn arweinydd yn gyfrifoldeb mawr ac yn waith anodd, yn arbennig yng Nghymru heddiw. Mae dealltwriaeth o beth yw arweinydd yn ein cymdeithas ni yn wahanol iawn i'r patrwm Beiblaidd a bydd y diafol yn ymosod ar y rhai sy'n gofalu am braidd Duw. Gweddiwch y bydd ein harweinwyr yn magu cymeriad duwiol.



PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am y Beibl a'r cyfan mae wedi ei roi i'n harwain fel Cristnogion. Diolchwch i Dduw am eich arweinwyr.

YMATEB AC YSTYRIED

Pa mor aml ydych chi'n gweddio am eich arweinwyr – ydan ni'n eu parchu fel y mae'r Beibl yn gorchymyn?

GOFYN

Gweddiwch ar i Dduw roi gwyleidd-dra, cryfder a doethineb i arweinwyr wrth iddynt ofalu am yr eglwys a gweddiwch y byddant yn dilyn patrwm yr Arglwydd, nid y byd. Gweddiwch y bydd Duw yn amddiffyn ein harweinwyr rhag ymosodiadau ac y bydd hefyd yn rhoi i ni arweinwyr ifanc newydd.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae nifer o weinidogion wedi gadael eu heglwysi neu wedi gorfod cymryd amser i ffwrdd oherwydd salwch yng Nghymru yn y 24 mis diwethaf.

Fel rhan o'u gofal dros Gymru mae Union (Coleg Diwinyddol Pen-y-bont ar Ogwr) wedi penodi Jonathan Thomas (sydd hefyd yn aelod o'r bwrdd rheoli MEC) yn ddeon bugeiliol. Mae'n nodi isod:

"Angen mawr Cymru yw arweinwyr sy'n datgan Gair Duw yn glir a chydag pŵer yr Ysbryd. Gweddiwch y bydd arweinwyr newydd yn datblygu ac y bydd y rhai hynach yn cael eu hadnewyddu a'u hadfywio i barhau i ddatgan Gair Duw ym mhob sefyllfa."